

CBAC TGAU

Drama

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Deunyddiau Aseu Enghreifftiol

Uned 3: Dehongli Theatr

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027



Cynnwys

Mynediad Deunyddiau Asesu Enghreifftiol	1
Cynllun marcio	2
Grid mapio	89
Atodiad A – Asesiad Digidol CBAC Drama	91





SAMPLE

Uned 3: Dehongli Theatr

Asesir Uned 3: Dehongli Theatr drwy Arholiad Digidol. Mae'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ar-lein i'w gweld yma:

<http://web.download.wjec.co.uk/surpass/package-exams/GCSE-Drama-CY/index.html>

Dilynwch y camau canlynol i weld y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ar-lein:

1. Cliciwch ar y cyswllt sydd wedi'i ddarparu:	
2. Cliciwch ar 'lawn':	
3. Cliciwch ar 'Ie':	
4. Cliciwch ar 'Cychwyn y Prawf':	
5. Cliciwch ar 'Yn ôl' neu 'Nesaf' ar waelod y sgrin i fynd drwy'r asesiad:	
6. Unwaith y byddwch wedi gweld y Deunydd Asesu Enghreifftiol, caewch y tab neu'r porwr.	

CYNLLUN MARCIO

Canllawiau i arholwyr

Egwyddorion marcio generig

- Marciau cyfan (nid hanner marciau, na ffracsiynau eraill) a ddyfernir bob amser.
- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid dyfarnu marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn.
- Dyfernir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid dyfarnu marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu, yn hytrach na'u cosbi am unrhyw wybodaeth y byddant yn ei hepgor. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael dim un marc. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae cynnwys '*Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall*' (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marcio uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw, heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth briodol: nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb yn fwyaf agos i'r gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band priodol, penderfynir ar y marc o fewn band ar sail gweithdrefn 'ffit orau'. Bydd cryfderau mewn rhai meysydd yn gwneud iawn am wendidau mewn meysydd eraill.

Dylai arholwyr ddefnyddio'r amrediad llawn o farciau sydd ar gael iddynt. Dylai marcio fod yn gadarnhaol, gan wobrwyo llwyddiant yn hytrach na chosbi methiant neu hepgoriadau. Rhaid i'r marciau a roddir fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r meini prawf marcio, a rhaid marcio pob ymateb yn ôl y bandiau a ddarperir ar gyfer pob cwestiwn.

Darperir deunydd safoni sydd eisoes wedi cael ei farcio yn ystod y broses safoni a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu gwaith. Caiff arholwyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y deunydd safoni wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Mae'r cynllun marcio hwn yn cyfarwyddo'r arholwyr i chwilio am ddewisiadau amgen dilys a'u gwobrwyo pan fo cynnwys dangosol yn cael ei awgrymu fel ateb. Nid yw'n rhestr wirio ar gyfer cynnwys disgwylidig mewn ateb, nac yn cael ei ddatgan fel 'ateb enghreifftiol', gan fod yn rhaid marcio ymatebion yn y bandiau lefelau o ymateb ar gyfer pob cwestiwn. Os yw ymgeisydd yn cynnig ateb sy'n cynnwys agweddau neu ddulliau nad ydynt yn y cynnwys dangosol, dylai arholwyr ddefnyddio'u barn broffesiynol i bennu dilysrwydd yr ymateb yn sgil y dasg a rhoi marciau yn ôl y cyfarwyddyd yn y bandiau. Mae gan ymgeiswyr ryddid i ddewis unrhyw ddull sy'n berthnasol i'r dasg a osodwyd. Gall ymgeiswyr ymgorffori syniadau heblaw am y rhai a grybwyllir yn y cynllun marcio (ac maen nhw'n debygol o wneud hynny).

NAILL AI

Breuddwyd Nos *Ŵyl Ifan* William Shakespeare

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	Breuddwyd Nos <i>Ŵyl Ifan</i> William Shakespeare				
(a)	(i)	Dewiswch un llinell o'r darn, sy'n dangos cymhelliant Tylwyth Teg.	1		1
	(ii)	Esboniwch pam mae'r llinell rydych chi wedi'i dewis yn dangos cymhelliant Tylwyth Teg.	1		1

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

Rhowch un marc am nodi llinell addas o'r darn penodedig.

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- 'Gwas ein Brenhines ydw i / I wlitho'i chylchoedd gleision hi.'
- 'Ffarwél iti, lobsyn yr ysbrydion, rwyf am hedfan.'
- Neu ti yw'r ysbryd clyfar, direidus hwnnw.'
- A'm meistres innau. Ag e' ni fydd hi'n llon.'

Rhowch un marc am esboniad byr pam maen nhw wedi dewis y llinell.

Dylai'r esboniad fod yn gysylltiedig â'r llinell a ddewiswyd.

- I ddangos perthynas y tylwyth teg â Titania.
- I ddangos ei bod hi'n teimlo'n ddig wrth Puck.
- I ddangos ei bod hi'n chwilfrydig am Puck.
- I ddangos ei bod hi'n ofni Titania.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan William Shakespeare					
(a)	(iii)	Yn gryno, disgrifiwch y dôn a'r tempo y gallech chi eu defnyddio wrth lefaru'r llinell rydych chi wedi'i dewis.	2			2

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

- Rhwch un marc am dôn addas ac un marc am dempo addas.
- Dylai'r ymateb fod yn gysylltiedig â'r llinell benodol yn y cwestiwn blaenorol.
- Rhaid i'r atebion gyfeirio at dôn a thempo er mwyn ennill y 2 farc llawn. Os mai dim ond un a drafodir, bydd yr atebion yn cael eu marcio allan o uchafswm o 1 marc.

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- Tôn falch a thempo araf i bwysleisio pwysigrwydd fy rôl.
- Tôn ddirmygus a thempo cyflym i ddangos ei chasineb o Puck a pha mor ddibwys yw ef.
- Tôn chwilfrydig a thempo araf i ddangos bod ei diddordeb wedi'i ennyn.
- Tôn bryderus a thempo cyflym i ddangos ei bod hi'n poeni am yr effaith y bydd Oberon yn dod i mewn yn ei chael ar Titania.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan William Shakespeare					
(a)	(iv)	Yn gryno, disgrifiwch un symudiad ac un mynegiant wyneb y gallai actor sy'n chwarae'r Tylwyth Teg eu defnyddio yn y darn.	2			2

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

- Rhwch un marc am symudiad addas ac un marc am fynegiant wyneb addas.
- Dylai'r ymgeisydd ddangos dealltwriaeth o'r cymeriad yn y darn penodedig.
- Rhaid i'r atebion gyfeirio at symudiadau a mynegiant wyneb er mwyn ennill y ddau farc llawn. Os dim ond un a drafodir, bydd yr atebion yn cael eu marcio allan o uchafswm o un marc. Mae'n bosibl derbyn ystum fel symudiad. Dim marciau am gymeriad anghywir.

Cynnwys dangosol

Gall syniadau addas gynnwys:

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- Gallai hi gerdded yn ofalus a bod â mynegiant wyneb sy'n dangos ei bod hi'n canolbwyntio.
- Gallai hi symud yn agos at Puck gyda mynegiant wyneb chwilfrydig.
- Gallai hi chwerthin lond ei bol gyda mynegiant wyneb llawen.
- Gallai hi sefyll i fyny yn syth gyda mynegiant wyneb pryderus.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan William Shakespeare					
	(a)	(v)	Rhowch ddau reswm dros eich awgrymiadau	2		2

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

- Rhowch hyd at 1 marc am bob rheswm dilys a nodir hyd at uchafswm o ddau farc.
- Dylai'r rheswm ddangos gwybodaeth o amgylchiadau penodol y darn a'r cymeriad. Dylai'r rhesymau fod yn gysylltiedig â'r symudiadau ac ystumiau a nodir yn 2(a)(iii).

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- Mae hi'n dylwythen deg nodweddiadol a'i gwaith yw gofalu am natur, swydd y mae'n ei chymryd o ddifrif.
- Mae hi wedi clywed popeth am Puck a'i gampau ac mae hi'n sefyll yn agos ato i wneud yn siŵr mai ef sydd yno ac mae hi'n chwilfrydig i ddarganfod ai ef yw'r Puck drwg-enwog mewn gwirionedd.
- Iddi hi, mae holl gampau Puck yn ddoniol iawn ac maen nhw'n gwneud iddi chwerthin, mae hi'n mwynhau sôn amdanyn nhw.
- Titania yw ei meistres ac mae ei chyfarfyddiad â Puck wedi gwneud iddi gynhyrfu am eiliad. Mae hi'n poeni am yr effaith y bydd cwrdd ag Oberon yn ei chael ar ei meistres.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	Breuddwyd Nos Wyl Ifan William Shakespeare					
(b)	(i)	Disgrifiwch gymeriad ROBIN GOODFELLOW / PUCK yn y darn.	4			4

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

Rhowch hyd at 4 marc am ddisgrifiad manwl o gymeriad ROBIN GOODFELLOW / PUCK. Dylai'r disgrifiad ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cymeriad a'r amgylchiadau penodol yn y darn. Dylai'r disgrifiad gydnabod y berthynas â'r cymeriadau eraill yn y darn. Disgrifiad cyffredinol o gymeriad heb unrhyw gyfeiriad y darn, rhowch hyd at 1 marc. Disgrifiad o gymeriad anghywir neu ddim ymateb 0 marc.

- Rhowch 4 marc am ddealltwriaeth ardderchog, gan gyfeirio at y cymeriad drwy gydol y darn i gyd.
- Rhowch 3 marc am ddealltwriaeth dda, gan gyfeirio at y cymeriad drwy'r rhan fwyaf o'r darn neu am ddealltwriaeth ragorol o ran benodol o'r darn.
- Rhowch 2 marc am esboniad sylfaenol gyda rhywfaint o gyfeirio penodol drwy'r rhan fwyaf o'r darn neu am ddealltwriaeth dda o ran benodol o'r darn.
- Rhowch 1 marc am esboniad cyfyngedig sy'n dangos ychydig neu ddim dealltwriaeth o'r cymeriad yn y darn.

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- Mae'n awdurdodol ac yn credu ei fod yn llawer pwysicach na'r tylwyth teg.
- Mae'n falch o'i holl gampau drwg a'i natur wrthryfelgar.
- Mae'n dechrau hoffi'r tylwyth teg ac yn mwynhau siarad â hi.
- Mae'n cydnabod pwysigrwydd Oberon a'i awdurdod.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	Breuddwyd Nos Wyl Ifan William Shakespeare					
(b)	(ii)	<p>Awgrymwch wisg addas i PUCK.</p> <p>Yn eich ateb, cyfeiriwch at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arddull neu gyfnod • dillad • lliw • gwalt a cholur. <p>Rhowch ddau reswm dros eich awgrymiadau.</p>	6			6

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

- Rhowch 1 marc am arddull neu gyfnod addas.
- Rhowch 1 marc am ddillad addas.
- Rhowch 1 marc am liw addas.
- Rhowch 1 marc am wallt a cholur addas.
- Rhowch 1 marc am bob rheswm dros awgrym hyd at uchafswm o 2 farc. Dylai fod dau reswm gwahanol er mwyn i'r ymgeisydd gael uchafswm o 2 farc. Dylai'r rhesymau ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cymeriad, amgylchiadau penodol y darn, a dylen nhw fod yn gysylltiedig â'u disgrifiad o'r wisg.

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

Awgrym:

- Mae'r arddull rydw i wedi'i dewis yn seiliedig ar gyfnod Pync.
- Y dillad y byddai Puck yn eu gwisgo fyddai crys T gyda thyllau ynddo a motiff o'r Sex Pistols a jîns llac gyda llawer o gadwyni, esgidiau ymarfer Converse.
- Byddai ei ddillad i gyd yn ddu gyda motiff SP coch, byddai ei esgidiau yn ddu a gwyn.
- Byddai ei wallt mewn steil 'Mohican' a byddai ganddo amlinellydd llygaid du o amgylch ei lygaid.

Rheswm:

- Fy rheswm dros y wisg hon yw mai gwrthryfel oedd prif thema'r cyfnod Pync ac mae Puck yn ysbryd gwrthryfelgar. Ers i Titania ac Oberon ffraeo, mae tywyllwch wedi dod dros Wlad y Tylwyth Teg, gallai lliwiau duon y wisg bwysleisio hyn.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan William Shakespeare					
(c)	(i)	Enwch y ddau lwyfan hyn	2			2
AA1						
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio						
Rhowch un marc am bob llwyfan cywir sydd wedi'i enwi, hyd at uchafswm o 2 farc.						
<ul style="list-style-type: none"> • Diagram A – Llwyfan Ymwthiol • Diagram B – Llwyfan Bwa Prosceniwm 						
1.	Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan William Shakespeare					
(c)	(ii)	<p>Dewiswch un o'r llwyfannau o gwestiwn (c) (i) a disgrifiwch eich syniadau dylunio set ar gyfer y darn hwn.</p> <p>Dylech gyfeirio at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eich dewis o lwyfan • eich dewis o arddull cynhyrchu • eich dewis o set a phropiau • y math o lwyfan gafodd ei ddefnyddio yn y cynhyrchiad gwreiddiol. 	10			10
AA1						
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio						
9-10 marc						
5	<ul style="list-style-type: none"> • Esboniad craff o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai lwyfan ymwthiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth graff o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth graff o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Cyfeiriadau hynod briodol at y darn. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd priodol iawn o derminoleg drama. • Cyfeiriad at y math o lwyfan a ddefnyddiwyd yn y cynhyrchiad gwreiddiol. 					
7-8 marc						
4	<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth fanwl o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai llwyfan ymwthiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth fanwl o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Cyfeiriadau priodol at y darn. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol o derminoleg drama. 					

3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth foddhaol o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai llwyfan ymwithiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth foddhaol o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Cyfeiriadau priodol ar y cyfan at y darn. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol ar y cyfan o derminoleg drama.
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth sylfaenol o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai llwyfan ymwithiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth sylfaenol o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Rhai cyfeiriadau priodol at y darn. • Rhywfaint o wybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol o derminoleg drama.
1	<p style="text-align: center;">1-2 farc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai llwyfan ymwithiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth gyfyngedig o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Cyfeiriadau cyfyngedig at y darn. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd cyfyngedig o derminoleg drama.
0 marc	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau / ni roddwyd cynnig arno

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau sydd isod a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

Y math o lwyfan a ddefnyddiwyd yn y cynhyrchiad gwreiddiol:

Cafodd ei llwyfannu am y tro cyntaf ym mis Ionawr 1605 yn y Curtain Theatre. Roedd yn adeilad mawr siâp wythonglog gyda llwyfan ymwithiol/ffedog.

Amgylchiadau penodol

Mae Puck a'r Tylwyth Teg yn cyfarfod, mae'r ddau yn dilyn Titania ac Oberon sy'n elynion pennaf.

Lleoliad – Coedwig.

Dewis o lwyfan

Rhaid i ymgeiswyr nodi pa fath o lwyfan y byddan nhw'n ei ddefnyddio naill ai Llwyfan Ymwithiol neu Lwyfan Bwa Prosceniwm. Rhaid i'w hymateb ddangos dealltwriaeth o sut mae eu dewis o lwyfan yn adlewyrchu eu dewis o set *er enghraifft* ymwybyddiaeth o linellau gweld, safle'r gynulleidfa. Dylai'r dewis o lwyfan gael ei adlewyrchu yn eu dewis o arddull.

Arddull y cynhyrchiad

Rhaid i ymgeiswyr ddewis arddull cynhyrchu ar gyfer eu syniadau llwyfannu. Gallai ymgeiswyr ddewis o blith amrywiaeth o arddulliau; fodd bynnag, rhaid i'r arddull a ddewiswyd weithio ar y llwyfan y maen nhw wedi'i ddewis. Rhaid iddyn nhw gyfiawnhau eu syniadau.

Set

- Dylai'r dewis o set adlewyrchu'r arddull, er enghraifft os yw ymgeiswyr yn dewis arddull finimalaidd, fyddai'r set ddim yn fanwl/naturiolaidd.
- Dylai ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o holl ardal y llwyfan, *er enghraifft*; yr ardal uwchben y llwyfan, ardal y llawr.
- Gall ymgeiswyr gynnwys y canlynol: cefnlenni, seicloramâu, rhwyllenni, lefelau, lliw, gwead, ac ati wrth ystyried set.
- Gall ymgeiswyr ddewis dyluniad cyffredinol er mwyn pwysleisio prif themâu'r ddrama, e.e. cariad, breuddwydion, y goruwchnaturiol.
- Cofiwch y bydd rhai ymgeiswyr wedi cael eu dysgu i ddefnyddio goleuo/tafluniadau/effeithiau **i greu set**, felly gallai rhai ymgeiswyr ddewis defnyddio tafluniadau i awgrymu'r goedwig, a geliau lliw i greu naws ac awyrgylch.

Propiau

- Dylai ymgeiswyr nodi'r propiau y maen nhw'n eu defnyddio. Er enghraifft, gallen nhw fod yn rhan o'r set, yn llwyn, neu efallai byddan nhw'n penderfynu defnyddio propiau personol fel tusw o flodau ar gyfer y Tylwyth Teg.
- Dylai ymgeiswyr roi rhesymau penodol dros bob un o'u dewisiadau propiau a dylai fod dealltwriaeth gyfannol o sut mae pob elfen h.y. llwyfan, arddull, set/propiau yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu dyluniad cydlynol.

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
1.	Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan William Shakespeare				
(ch)	<p>Fel actor gofynnwyd i chi chwarae rhan THESEUS mewn cynhyrchiad o <i>Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan</i>. Dewiswch un darn o'r ddrama ac esboniwch sut gallech chi gyfleu'r cymeriad i'r gynulleidfa.</p> <p>Peidiwch â defnyddio'r darn a ddefnyddiwyd ar gyfer cwestiynau 1(a)-1(c)</p> <p>Yn eich ateb, cyfeiriwch at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymhelliant y cymeriadau • llais • symudiadau • rhyngweithio. 	15			15
Band	AA1 Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio				
5	<p style="text-align: center;">13-15 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad craff o'r hyn sy'n cymell y cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth graff o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth graff o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth graff o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Cyfeiriadau manwl iawn at y darn i ategu'r sgiliau lleisiol/symud/rhyngweithio a awgrymwyd. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol iawn o derminoleg drama. 				
4	<p style="text-align: center;">10-12 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad manwl o'r hyn sy'n cymell y cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Cyfeiriadau manwl at y darn i ategu'r sgiliau lleisiol/symud/rhyngweithio a awgrymwyd. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol o derminoleg drama. 				

3	<p style="text-align: center;">7-9 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad boddhaol o'r hyn sy'n cymell y cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Cyfeiriadau cyffredinol at y darn i ategu'r sgiliau lleisiol/symud/rhyngweithio a awgrymwyd. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol ar y cyfan o derminoleg drama.
2	<p style="text-align: center;">4-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad sylfaenol o'r hyn sy'n cymell y cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Rhai cyfeiriadau at y darn i ategu'r sgiliau lleisiol/symud/rhyngweithio a awgrymwyd. • Rhywfaint o wybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol o derminoleg drama.
1	<p style="text-align: center;">1-3 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniad cyfyngedig o'r hyn sy'n cymell y cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu cymeriad yn y darn a ddewiswyd. • Cyfeiriadau cyfyngedig at y darn i ategu'r sgiliau lleisiol/symud/rhyngweithio a awgrymwyd. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd cyfyngedig o derminoleg drama berthnasol.
0 marc	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau / ni roddwyd cynnig arno

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau sydd isod a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol yn ôl yr olygfa a ddewiswyd.

Os yw ymgeiswyr yn defnyddio'r un darn â'r un sydd yng Nghwestiwn 1(a) – 1(c) ni allant sgorio'n uwch na band 2.

Cymeriad Thesus

Ef yw Dug Athen ac ef yw ffigwr patriarchaidd canolog y ddrama.

Cymhelliant y cymeriad

Dylai cymhelliant y cymeriad gael ei ddeall yng nghyd-destun y darn a ddewiswyd.

Llais

Gall ymgeiswyr ystyried: acen, tŷn, tempo, cryfder y llais, saib, tawelwch, is-destun.

Symudiadau:

Gall ymgeiswyr ystyried: ansawdd y symudiadau, yr ystumiau, y mynegiant wyneb, y symudiadau gan gynnwys propiau, y set, y gwisgoedd. Gallai ymgeiswyr gyfeirio at y defnydd o'r gofod actio a chyfeirio at y pellter rhwng y cymeriad â chymeriadau eraill (cynefineg).

Rhyngweithio

Â'r cymeriadau eraill, â'r gynulleidfa, â'r set/propiau.

Dylid cysylltu pob un o'r uchod yn agos â'r cymeriadau/adegau yn y darn a ddewiswyd

Diwedd Breuddwyd Nos *Ŵyl Ifan* William Shakespeare

NEU

Pethau Brau Tennessee Williams

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2.	Pethau Brau , Tennessee Williams				
(a)	(i)	Dewiswch un llinell o'r darn, sy'n dangos cymhelliant Tom .	1		1
	(ii)	Esboniwch pam mae'r llinell rydych chi wedi'i dewis yn dangos cymhelliant Tom .	1		1

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

Rhowch un marc am nodi llinell addas o'r darn penodedig.

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- "Ydw, mae hynny'n wir, wedi ei golli'n llwyr".
- "Edrychwch 'ma. . . does gen i ddim un peth, dim un peth bach."
- "Ddoe fe gawsoch chi wared o'm llyfrau. Roeddech chi mor ewn â".
- "Tŷ, tŷ? Pwy sy'n talu'r rhent amdano, pwy sy'n gwneud caethwas ohono'i hun er mwyn..."

Rhowch un marc am esboniad byr pam maen nhw wedi dewis y llinell.

Dylai'r esboniad fod yn gysylltiedig â'r llinell a ddewiswyd.

- I ddangos perthynas Tom ag Amanda.
- I ddangos ei fod yn teimlo'n ddig wrth Amanda.
- I ddangos ei rwystredigaeth gyda'i sefyllfa.
- I ddangos sut mae Tom yn teimlo ei fod yn cael ei gamddeall.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2.	Pethau Brau , Tennessee Williams					
(a)	(iii)	Yn gryno, disgrifiwch y dôn a'r tempo y gallech chi eu defnyddio wrth lefaru'r llinell rydych chi wedi'i dewis.	2			2

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

- Rhowch un marc am dôn addas ac un marc am dempo addas.
- Dylai'r ymateb fod yn gysylltiedig â'r llinell benodol yn y cwestiwn blaenorol.
- Rhaid i'r atebion gyfeirio at dôn a thempo er mwyn ennill y 2 farc llawn. Os mai dim ond un a drafodir, bydd yr atebion yn cael eu marcio allan o uchafswm o 1 marc.

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- Tôn ddig a thempo cyflym i bwysleisio ei ddieter tuag at Amanda.
- Tôn ddirmygus a thempo cyflym i ddangos nad yw'n hoff o Amanda a sut mae hi'n ei drin.
- Tôn sbeityld a thempo araf i ddweud y drefn wrth Amanda.
- Tôn anghrediniol a thempo cyflym i ddangos na all gredu y byddai Amanda yn cael gwared o'i lyfrau.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2.	Pethau Brau Tennessee Williams					
(a)	(iv)	Yn gryno, disgrifiwch un symudiad ac un mynegiant wyneb y gallai actor sy'n chwarae Tom eu defnyddio yn y darn.	2			2

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

- Rhowch un marc am symudiad addas ac un marc am fynegiant wyneb addas.
- Dylai'r ymgeisydd ddangos dealltwriaeth o'r cymeriad yn y darn penodedig.
- Rhaid i'r atebion gyfeirio at symudiadau a mynegiant wyneb er mwyn ennill y ddau farc llawn. Os dim ond un a drafodir, bydd yr atebion yn cael eu marcio allan o uchafswm o un marc. Mae'n bosibl derbyn ystum fel symudiad. Dim marciau am gymeriad anghywir.

Cynnwys dangosol

Gall syniadau addas gynnwys:

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- Gallai Tom ruthro i mewn gyda mynegiant wyneb dig.
- Gallai symud yn agos at Amanda gyda mynegiant wyneb sbeityld.
- Gallai guro ar y bwrdd gyda mynegiant wyneb sarcastig.
- Gallai sefyll i fyny yn syth gyda mynegiant wyneb penderfynol.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2.	Pethau Brau Tennessee Williams					
(a)	(v)	Rhowch ddau reswm dros eich awgrymiadau	2			2

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

- Rhowch hyd at 1 marc am bob rheswm dilys a nodir hyd at uchafswm o ddau farc.
- Dylai'r rheswm ddangos gwybodaeth o amgylchiadau penodol y darn a'r cymeriad. Dylai'r rhesymau fod yn gysylltiedig â'r symudiadau ac ystumiau a nodir yn 2(a)(iii).

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- Mae Tom yn ceisio dianc oddi wrth Amanda ac mae'n ddig am y ffordd y mae hi'n ei drin.
- Gallai Tom sefyll yn agos at Amanda i ddangos nad yw'n cael ei fygwth ganddi, a byddai ei fynegiant wyneb sbeitlyd yn dangos ei fod yn dweud pethau i'w brifo hi.
- Gallai Tom guro ar y bwrdd i ddangos ei rwystredigaeth gydag Amanda, byddai ei fynegiant wyneb sarcastig yn dangos ei fod yn methu'n lân â chredu'r ffordd y mae hi'n ei drin.
- Gallai Tom sefyll i fyny yn syth iawn i bwysleisio ei statws ac i ddangos i Amanda nad yw'n mynd i ddiodef rhagor o'i hymddygiad, byddai ei fynegiant wyneb penderfynol yn dangos ei fod yn mynd i ddechrau gwneud pethau ei ffordd ei hun.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2.	Pethau Brau Tennessee Williams					
	(b)	(i)	Disgrifiwch gymeriad AMANDA yn y darn .	4		4

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

Rhowch hyd at 4 marc am ddisgrifiad manwl o gymeriad Amanda. Dylai'r disgrifiad ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cymeriad a'r amgylchiadau penodol yn y darn. Dylai'r disgrifiad gydnabod y berthynas â'r cymeriadau eraill yn y darn. Disgrifiad cyffredinol o gymeriad heb unrhyw gyfeiriad y darn, rhowch hyd at 1 marc. Disgrifiad o gymeriad anghywir neu ddim ymateb 0 marc.

- Rhowch 4 marc am ddealltwriaeth ardderchog, gan gyfeirio at y cymeriad drwy gydol y darn i gyd.
- Rhowch 3 marc am ddealltwriaeth dda, gan gyfeirio at y cymeriad drwy'r rhan fwyaf o'r darn neu am ddealltwriaeth ragorol o ran benodol o'r darn.
- Rhowch 2 marc am esboniad sylfaenol gyda rhywfaint o gyfeirio penodol drwy'r rhan fwyaf o'r darn neu am ddealltwriaeth dda o ran benodol o'r darn.
- Rhowch 1 marc am esboniad cyfyngedig sy'n dangos ychydig neu ddim dealltwriaeth o'r cymeriad yn y darn.

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

- Mae hi'n awdurdodol ac yn credu ei bod hi'n llawer pwysicach na Tom.
- Mae hi'n teimlo'n ddig wrth Tom a'r ffordd y mae hi'n gweld y mae'n ymddwyn.
- Mae ganddi safonau uchel iawn ac mae'n hynod siomedig bod Tom wedi methu dilyn ei rheolau.
- Mae hi'n siomedig ynghylch pa fath o bobl yw ei phlant.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2.	Pethau Brau Tennessee Williams					
(b)	(ii)	<p>Awgrymwch wisg addas i AMANDA.</p> <p>Yn eich ateb, cyfeiriwch at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arddull neu gyfnod • dillad • lliw • gwallt a cholur <p>rhowch ddau reswm dros eich awgrymiadau.</p>	6			6

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio

- Rhowch 1 marc am arddull neu gyfnod addas.
- Rhowch 1 marc am ddillad addas.
- Rhowch 1 marc am liw addas.
- Rhowch 1 marc am wallt a cholur addas.
- Rhowch 1 marc am bob rheswm dros awgrym hyd at uchafswm o 2 farc. Dylai fod dau reswm gwahanol er mwyn i'r ymgeisydd gael uchafswm o 2 farc. Dylai'r rhesymau ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cymeriad, amgylchiadau penodol y darn, a dylen nhw fod yn gysylltiedig â'u disgrifiad o'r wisg.

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

Awgrym:

- Y cyfnod rwyf wedi ei ddewis yw'r 1930au, cyfnod gwreiddiol y ddrama.
- Y dillad y byddai Amanda yn eu gwisgo fyddai sgert syth wllân i ychydig uwchben ei fferau, blows gyda cholur ffiril, cardigan wllân wedi ei botymu ac esgidiau fflat.
- Byddai'r sgert yn frown, y flows yn wyn a'r gardigan yn lliw hufen. Byddai'r esgidiau'n frown gyda bwcl bach aur.
- Byddai ei gwallt yn gymen ac yn daclus mewn bynsen fach a byddai ganddi ychydig o finlliw pinc ar ei gwefusau.

Rheswm:

- Byddai gwisg Amanda yn adlewyrchu'r cyfnod y mae'r ddrama wedi'i gosod ynddo. Byddai ei gwisg yn edrych yn gymen ac yn daclus i bwysleisio ei safonau caeth a'r balchder sydd ynddi wrth gadw wyneb. Byddai ei dillad, er eu bod yn gymen a thacclus, yn edrych yn eithaf anniben gan fod Amanda yn byw mewn tloidi cymharol.

Cwestiwn	Ateb		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2.	Pethau Brau Tennessee Williams					
(c)	(i)	Enwch y ddau lwyfan hyn.	2			2
AA1						
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio						
Rhowch un marc am bob llwyfan cywir sydd wedi'i enwi, hyd at uchafswm o 2 farc.						
<ul style="list-style-type: none"> • Diagram A – Llwyfan Ymwthiol • Diagram B – Llwyfan Bwa Prosceniwm 						
2.	Pethau Brau Tennessee Williams					
(c)	(ii)	<p>Dewiswch un o'r llwyfannau o gwestiwn (c) (i) a disgrifiwch eich syniadau dylunio set ar gyfer y darn hwn.</p> <p>Dylech gyfeirio at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eich dewis o ofod perfformio • eich dewis o arddull cynhyrchu • eich dewis o set a phropiau • y math o ofod perfformio gafodd ei ddefnyddio yn y cynhyrchiad gwreiddiol. 	10			10
AA1						
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio						
9-10 marc						
5	<ul style="list-style-type: none"> • Esboniad craff o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai lwyfan ymwthiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth graff o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth graff o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Cyfeiriadau hynod briodol at y darn. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd priodol iawn o derminoleg drama. • Cyfeiriad at y math o lwyfan a ddefnyddiwyd yn y cynhyrchiad gwreiddiol. 					
7-8 marc						
4	<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth fanwl o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai llwyfan ymwthiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth fanwl o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Cyfeiriadau priodol at y darn. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol o derminoleg drama. 					

3	<p style="text-align: center;">5-6 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth foddhaol o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai llwyfan ymwithiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth foddhaol o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Cyfeiriadau priodol ar y cyfan at y darn. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol ar y cyfan o derminoleg drama.
2	<p style="text-align: center;">3-4 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth sylfaenol o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai llwyfan ymwithiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth sylfaenol o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Rhai cyfeiriadau priodol at y darn. • Rhywfaint o wybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol o derminoleg drama.
1	<p style="text-align: center;">1-2 marc</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellir llwyfannu'r darn gan ddefnyddio naill ai llwyfan ymwithiol neu lwyfan bwa prosceniwm. • Dealltwriaeth gyfyngedig o sut a pham mae arddull cynhyrchu sy'n briodol i'r dewis o lwyfan, wedi'i dewis. • Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellid defnyddio set a phropiau i gyfleu ystyr. • Cyfeiriadau cyfyngedig at y darn. • Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd cyfyngedig o derminoleg drama.
0 marc	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau / ni roddwyd cynnig arno

Cynnwys dangosol

Dim ond enghreifftiau sydd isod a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.

Y math o lwyfan a ddefnyddiwyd yn y cynhyrchiad gwreiddiol:

Cafodd ei llwyfannu am y tro cyntaf yn Chicago yn 1944 yn y Civic Theatre. Bwa Prosceniwm oedd y math o lwyfan.

Amgylchiadau penodol

Mae Tom ac Amanda, mam a mab, yn cael dadl.

Lleoliad – Fflat Wingfield.

Dewis o lwyfan

Rhaid i ymgeiswyr nodi pa fath o lwyfan y byddan nhw'n ei ddefnyddio naill ai Llwyfan Ymwthiol neu Lwyfan Bwa Prosceniwm. Rhaid i'w hymateb ddangos dealltwriaeth o sut mae eu dewis o lwyfan yn adlewyrchu eu dewis o set *er enghraifft* ymwybyddiaeth o linellau gweld, safle'r gynulleidfa. Dylai'r dewis o lwyfan gael ei adlewyrchu yn eu dewis o arddull.

Arddull y cynhyrchiad

Rhaid i ymgeiswyr ddewis arddull cynhyrchu ar gyfer eu syniadau llwyfannu. Gallai ymgeiswyr ddewis o blith amrywiaeth o arddulliau; fodd bynnag, rhaid i'r arddull a ddewiswyd weithio ar y llwyfan y maen nhw wedi'i ddewis. Rhaid iddyn nhw gyfiawnhau eu syniadau.

Set

- Dylai'r dewis o set adlewyrchu'r arddull, er enghraifft os yw ymgeiswyr yn dewis arddull finimalaidd, fyddai'r set ddim yn fanwl/naturiolaid.
- Dylai ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o holl ardal y llwyfan, *er enghraifft*; yr ardal uwchben y llwyfan, ardal y llawr.
- Gall ymgeiswyr gynnwys y canlynol: cefnlenni, seicloramâu, rhwyllenni, lefelau, lliw, gwead, ac ati wrth ystyried set.
- Gall rhai ddewis dyluniad cyffredinol er mwyn pwysleisio prif themâu'r ddrama, e.e. atgofion, breuddwydion, teimlo'n ynysig.
- Cofiwch y bydd rhai ymgeiswyr wedi cael eu dysgu i ddefnyddio goleuo/tafluniadau/effeithiau **i greu set**, felly gallai rhai ymgeiswyr ddewis defnyddio tafluniadau i awgrymu'r ystafell, a geliau lliw i greu naws ac awyrgylch.

Propiau

- Dylai ymgeiswyr nodi'r propiau y maen nhw'n eu defnyddio. Er enghraifft, gallen nhw fod yn rhan o'r set, fel y teipiadur, neu efallai byddan nhw'n penderfynu defnyddio propiau personol fel llyfr y gallai Amanda ei daflu at Tom.
- Dylai ymgeiswyr roi rhesymau penodol dros bob un o'u dewisiadau propiau a dylai fod dealltwriaeth gyfannol o sut mae pob elfen h.y. llwyfan, arddull, set/propiau yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu dyluniad cydlynol.

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm Marciau
2.	Pethau Brau Tennessee Williams				
(ch)	<p>Fel actor gofynnwyd i chi chwarae rhan JIM mewn cynhyrchiad o <i>Pethau Brau</i>. Dewiswch un darn o'r ddrama ac esboniwch sut gallech chi gyfleu'r cymeriad i'r gynulleidfa.</p> <p>Peidiwch â defnyddio'r darn a ddefnyddiwyd ar gyfer cwestiynau 2(a)-2(c)</p> <p>Yn eich ateb, cyfeiriwch at:</p> <ul style="list-style-type: none"> cymhelliant y cymeriadau llais symudiadau rhyngweithio. 	15			15
Band	AA1 Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio				
